# PISA 2025 - Cwestiynau Cyffredin ynghylch Gweinyddwyr y Prawf (Prif Astudiaeth - Cymru)

## Beth mae Gweinyddwr Prawf yn ei wneud?

Mae Gweinyddwr Prawf yn cynnal yr astudiaeth o fewn ysgolion sy'n cymryd rhan, gan sicrhau bod y gweithdrefnau rhyngwladol yn cael eu dilyn yn llawn. Maent yn cydgysylltu ag ysgolion cyn diwrnod y prawf er mwyn sicrhau bod ysgolion yn barod i'w gynnal yn effeithlon ar y diwrnod. Mae'r astudiaeth yn cynnwys asesiadau ar-lein a holiadur ar-lein a gaiff eu gweinyddu i'r sampl ddethol o ddisgyblion. Yn ogystal, mae ysgolion yn cael holiaduron i'w cwblhau ymlaen llaw, a bydd yn rhaid i Weinyddwr y Prawf gadarnhau bod y rhain wedi cael eu cwblhau.

## Beth fydd y tâl?

Am gwblhau'r holl weithgareddau hyfforddi, gan gynnwys darllen deunyddiau a anfonir atoch, cwblhau cwisiau cyn yr hyfforddiant a bod yn bresennol mewn digwyddiad hyfforddiant byw, cewch dâl o £130.

Am ymweliadau ag ysgolion, cewch dâl ar gyfradd sefydlog o £195 am bob ymweliad, yn ogystal â threuliau cysylltiedig. Mae'r tâl am ymweliadau hefyd yn cynnwys amser teithio i'r ysgol ac oddi yno, a thasgau gweinyddol, megis siarad â'r ysgol cyn yr ymweliad, cwblhau gwaith papur ar y diwrnod a phostio'r gwaith papur hwnnw wedyn. Er mwyn gallu ystyried bod ymweliad yn gyflawn, mae angen i'r holl dasgau cysylltiedig fod wedi cael eu cwblhau, gan gynnwys y tasgau cyn diwrnod yr ymweliad ei hun a'r tasgau wedi hynny.

## Pryd byddaf yn cael fy nhalu?

Caiff eich tâl ei brosesu gan y Tîm Asesiadau Rhyngwladol ar Raddfa Fawr (ILSA) o fewn wythnos i gwblhau'r gweithgaredd, ac fe ddylai gyrraedd eich cyfrif o fewn pedair wythnos i hynny.

## Ble byddaf yn gweithio?

Rôl o bell yw hon y mae teithio yn rhan annatod a hanfodol o'r disgrifiad swydd. Caiff eich holl dreuliau teithio eu had-dalu. Ein nod yw dyrannu ysgolion ledled Cymru o fewn radiws o 50 milltir i safle eich cartref. Fodd bynnag, yn eich ymateb Mynegi Diddordeb byddwn yn gofyn a allwch deithio ymhellach na hynny, gan y bydd ysgolion mwy anghysbell y bydd angen gwasanaethau Gweinyddwyr Prawf arnynt. Mae'n bosibl y bydd angen aros dros nos ger yr ysgol er mwyn gwneud hyn (caiff manylion ynghylch pryd a sut y gellir trefnu llety eu rhannu yn ystod yr hyfforddiant).

## Faint o amser fydd angen i mi ei ymrwymo?

Caiff asesiadau PISA mewn ysgolion eu cynnal o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod cyfnod y profion, sy'n rhedeg o 15 Medi i 14 Hydref 2025. Bydd y diwrnod yn yr ysgol yn para rhwng tua 08:00 a 13:00, ond gall fod yn hwyrach. Caiff amserlen lawn y diwrnod ei hamlinellu yn ystod yr hyfforddiant. Yn ogystal ag amser yn yr ysgol, bydd angen i chi ystyried amser teithio i'r ysgol ac oddi yno, a'r amser a gaiff ei dreulio ar weithgareddau gweinyddol cyn ac ar ôl y prawf. Gofynnwn i Weinyddwyr Prawf sicrhau eu bod ar gael o leiaf dri diwrnod llawn yr wythnos drwy gydol y cyfnod.

## A oes angen i mi allu siarad Cymraeg?

Nac oes. Fodd bynnag, rydym yn arbennig o awyddus i glywed gennych os ydych yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg), gan fod cyfran o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly bydd y sgìl hwn yn ofynnol. Os nad ydych yn siarad Cymraeg, caiff ysgolion sy'n cynnal yr asesiad yn Saesneg yn unig eu dyrannu i chi.

## Faint o ysgolion gaiff eu dyrannu i mi?

Bydd nifer yr ysgolion a gaiff eu dyrannu i chi yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys eich argaeledd penodol o gymharu ag ysgolion yn eich rhanbarth, ac

mewn perthynas â Gweinyddwyr Prawf eraill sydd ar gael. Bydd ffactorau megis ysgolion yn newid dyddiad eu prawf a Gweinyddwyr Prawf eraill yn newid eu hargaeledd hefyd yn effeithio ar nifer yr ymweliadau y bydd angen i chi eu cwblhau. Ni fydd bod ar gael bob diwrnod yn golygu y bydd angen i chi ymweld ag ysgol bob diwrnod, ond bydd yn ei gwneud yn fwy tebygol y cewch eich paru ag ysgolion yn eich ardal, gan y bydd dyddiadau eu prawf yn cyd-fynd â'ch argaeledd. Os yw eich amserlen yn hyblyg, gofynnwn i chi nodi argaeledd eang fel y gallwn ddyrannu cymaint ag ysgolion â phosibl i chi ar yr adegau mwyaf cyfleus. Byddwch bob amser yn cael y cyfle i wneud sylwadau ar eich dyraniad a'i newid pan gaiff ei ddarparu i chi gyntaf, a thrwy gydol cyfnod y profion.

## A fyddaf yn ymweld ag ysgolion ar fy mhen fy hun?

Na fyddwch. Ar gyfer y Brif Astudiaeth, bydd tua 40 o ddisgyblion ym mhob ysgol yn sefyll y prawf felly byddwn yn ceisio sicrhau bod dau Weinyddwr Prawf yn bresennol ym mhob ymweliad fel arfer. Byddwch yn cydweithio i sicrhau bod yr ymweliad â'r ysgol yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl. Bydd un Gweinyddwr Prawf ar gyfer pob ysgol yn cael ei enwebu'n Brif Weinyddwr y Prawf. Prif Weinyddwr y Prawf fydd yn cyfathrebu â'r ysgol i ddechrau a bydd yn rhannu'r wybodaeth hon â Gweinyddwr arall y Prawf. Bydd yr holl gyfrifoldebau eraill yr un peth.

## Ar gyfer sawl ysgol y byddaf yn Brif Weinyddwr y Prawf?

Rydym yn ceisio dosbarthu rôl Prif Weinyddwr y Prawf yn gyfartal fel bod pob Gweinyddwr Prawf yn rhannu'r dasg hon. Gan y bydd Gweinyddwyr Prawf yn ymweld â nifer gwahanol o ysgolion â Gweinyddwyr Prawf amrywiol, ni ellir dosbarthu rôl Prif Weinyddwr y Prawf yn gyfartal bob amser, ond defnyddir dull ffit orau ar gyfer gwneud hynny.

## A allaf newid fy nyraniad o ysgolion?

Yn dilyn yr hyfforddiant, byddwch yn cael dyraniad drafft ac, ar y pwynt hwnnw, cewch y cyfle i wneud sylwadau o ran a yw'n addas ai peidio. Os bydd eich amgylchiadau yn newid yn ystod cyfnod y profion, gofynnwn i chi roi gwybod i ni

cyn gynted â phosibl. Drwy gydol cyfnod y profion, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi gynted â phosibl os bydd newidiadau (e.e. os bydd ysgol yn tynnu'n ôl neu'n gofyn am newid dyddiad y prawf).

## Pa hyfforddiant y byddaf yn ei gael?

Mae cwblhau hyfforddiant yn un o ragofynion y rôl, a bydd yn cymryd tua 5-6 awr i gyd.

Cewch eich hyfforddi o bell a bydd yn cynnwys cymysgedd o waith hunan-astudio a sesiwn fyw/holi ac ateb y bydd yn rhaid i chi fod yn bresennol ynddi:

- Darllen y llawlyfr i Weinyddwyr Prawf a'r atodiadau cysylltiedig
- Cwblhau modiwlau hyfforddiant ar-lein a'r cwisiau ategol (caiff cyfraddau cwblhau a chywirdeb eu monitro)
- Bod yn bresennol mewn sesiwn hyfforddiant fyw ar-lein (ddiwedd mis Awst 2025, dyddiadau i'w cadarnhau) Mae cynnwys yr hyfforddiant i'w gadarnhau, ond bydd yn para tua 2.5 awr.

## A yw'r astudiaeth yr un peth â PISA 2022?

Mae agweddau allweddol ar y prawf yr un peth â chylchoedd blaenorol PISA. Fodd bynnag, caiff platfform TG newydd ar gyfer y prawf ei ddefnyddio yn PISA 2025. Cafodd ei ddefnyddio gyntaf yn ystod y Prawf Maes ac, yn dilyn gwelliannau a wnaed wedi hynny i'n proses weithredu, gwelwyd bod model ag un URL ac enw defnyddiwr/cyfrinair i ddisgyblion yn symlach na model PISA 2022.

## A oes unrhyw beth wedi newid ers y Prawf Maes ym mis Mawrth 2024?

Oes. Gwnaethom ddysgu llawer o'r Prawf Maes ac rydym wedi gwneud diwygiadau priodol i'r broses ar gyfer y Brif Astudiaeth. Caiff yr hyn sydd wedi newid ers y Prawf Maes ei nodi yn ystod yr hyfforddiant, fel y bo'n briodol.

## A oes angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?

Oes. Rhaid bod gan Weinyddwyr Prawf dystysgrif fanylach ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sydd naill ai wedi'i chofrestru â'r gwasanaeth diweddaru, neu wedi'i chyhoeddi ar ôl 15 Hydref 2023. Os nad oes gennych dystysgrif gyfredol, cewch eich ardystio fel rhan o'r broses recriwtio. Caiff cyfarfod ar-lein byr ei drefnu â chi naill ai i wirio eich manylion adnabod cyn gwneud cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, neu i wirio eich tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

## A fyddaf yn cael contract?

Byddwch. Nid yw dychwelyd ffurflen Mynegi Diddordeb na chael eich recriwtio/cofrestru fel un o Weinyddwyr Prawf Pearson yn golygu y byddwch yn Weinyddwr Prawf ar gyfer yr astudiaeth benodol hon. Mae'n rhaid i chi hefyd gael contract ar gyfer prif astudiaeth PISA 2025 a dychwelyd y contract hwnnw, a bod wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus, cyn y caiff ymweliadau ag ysgolion eu dyrannu i chi. Mae'r contract yn cynnwys gwybodaeth bwysig am eich rôl, gan gynnwys gwybodaeth ymarferol am daliadau a threuliau, ac mae'n nodi eich bod yn cytuno i gynnal cyfrinachedd yr holl ddeunyddiau.

## A fydd angen gwneud unrhyw waith marcio?

Nid yw marcio yn rhan o rôl Gweinyddwr y Prawf. Caiff y gwaith o godio ymatebion myfyrwyr ei gynnal yn ystod mis Hydref/Tachwedd 2025. Mae'n bosibl y byddwn yn hysbysebu am godwyr â phrofiad pynciol a phrofiad o farcio mathemateg, gwyddoniaeth a darllen/Cymraeg yn ystod 2025. Os cewch eich recriwtio'n llwyddiannus i fod yn Weinyddwr Prawf ac yr hoffech fod yn godiwr hefyd, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost i dîm PISA yn PISASupport@pearson.com.

## Mae gennyf gydweithiwr/ffrind â'r cymwysterau cywir sydd â diddordeb mewn bod yn Weinyddwr Prawf hefyd.

Dylech gyfeirio cydweithwyr sydd â'r cymwysterau addas at y [ffurflen gais]. Rydym yn arbennig o awyddus i ddenu recriwtiaid newydd sydd â sgiliau Cymraeg, ac mae angen dosbarthiad daearyddol eang arnom. Gall pobl sydd â diddordeb hefyd

gysylltu â [PISASupport@pearson.com](mailto:PISASupport@pearson.com) am ragor o wybodaeth.

## Os bydd angen mwy o wybodaeth arnaf, â phwy y dylwn gysylltu?

Dylech anfon unrhyw ymholiadau i PISASupport@pearson.com.

Gallwch hefyd ffonio 020 7010 2111 rhwng 9am a 4pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.